

Cam 1: Ffeithiau planhigion anhygoel o amgylch y byd!

Mae **blodyn Mwnci** fel rhedfa maes awyr.

Mae marciau'r blodyn yn dangos i'r gwenyn ble i lanio a dod o hyd i'r neithdar blasus.

Dim ond gwenyn sy'n gallu gweld y marciau hyn!



Mae gan **goeden Baobab Affricanaidd** foncyff swmpus â all dyfu hyd at 15 metr o led.

Mae'r goeden hon hefyd yn ddefnyddiol iawn. Mae pobl yn bwyta'r ffrwythau a'r blodau ac maen nhw'n gwneud brethyn a phapur o'r dail a'r gwreiddiau!



Redwoods yw'r coed talaf yn y byd.

Gallant dyfu hyd at 111 metr o daldra – mae hynny'n dalach na'r Statue of Liberty!

Un o'r blodau mwyaf yn y byd yw'r **Rafflesia** enfawr.

Mae'n tyfu hyd at un metr o led ac nid oes ganddo goesyn na dail!



Mae coesyn **planhigyn Liana** yn gweithio fel sugnwr llwch yn y goedwig law boeth, gan sugno dŵr i fyny'r planhigyn ar gyfradd o un metr y funud!